**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Mawrth 2021

Annwyl Mr Ramsay,

**Diweddariad ar Addasiadau Tai**

Ymhellach i Addasiadau Tai: Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2019, ysgrifennais atoch ar 28 Mai 2020 ac wedi hynny ar 22 Hydref gyda diweddariad ar ddatblygiadau. Rwy'n ysgrifennu nawr gyda gwybodaeth bellach ar yr argymhellion sy'n weddill.

Yn gyntaf, mewn perthynas ag **Argymhelliad 3** – mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig ar 10 Mawrth mewn perthynas ag addasiadau bach a chanolig eu maint. O Ebrill 2021 bydd yn haws i bobl anabl gael cymorth gydag addasiadau bach a chanolig eu maint i'w cartrefi wrth i ni gymryd camau i ddileu'r prawf modd ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (GCA). Os dilëwn y prawf modd, mae ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn cyfrifo y byddai'n golygu cost ychwanegol ar lywodraeth leol yng Nghymru o £238,000, tra byddai pob awdurdod lleol yn arbed £6,000-£10,000 bob blwyddyn mewn costau gweinyddol. Cyhoeddwyd yr ymchwil hwn ar wefan y GPCC ar 10 Mawrth.

Mae awdurdodau lleol dan ddyletswyddau statudol i roi GCA i bobl anabl sy'n gymwys ac ni fydd hyn yn newid. Fodd bynnag, gallant ddefnyddio pwerau o dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2002 i roi grantiau heb gynnal prawf modd. Mae'r Gweinidog wedi cynyddu'r grant Hwyluso i awdurdodau lleol o Ebrill 2021 o £400,000, i £4.4 miliwn. Gellir defnyddio'r grant ychwanegol hwn i gwrdd â phwysau cyllid cyfalaf a delio ag unrhyw dagfeydd posibl fel canlyniad i gynnydd yn y galw am addasiadau. Rydym yn hyderus y gallwn barhau i'w wneud yn haws i'r rhai sydd eu hangen gael addasiadau, yn ogystal â lleihau amseroedd aros, drwy gydweithio gydag awdurdodau lleol.

Yn achos y nifer bach o addasiadau mawr a wneir bob blwyddyn, hoffwn dynnu sylw at y canllawiau diwygiedig ar gyfer rhaglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig (GGI) ar gyfer 2021/22 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr. Fel arfer, dim ond yn yr achosion mwyaf cymhleth y mae gofyn am addasiadau mawr, megis teuluoedd â phlant anabl, oedolion â chlefyd sy'n cwtogi bywyd, neu ddamweiniau difrifol. Mae datrys y materion ariannol yn gallu cymryd llawer o amser, gan arwain at drallod sylweddol a pharhaus. O dan ganllawiau diwygiedig y GGI, mae Byrddau Partneriaeth

Rhanbarthol yn cael defnyddio eu disgresiwn i gwrdd â chostau ychwanegol addasiadau sy'n costio mwy na £36,000. Byddwn yn monitro'r defnydd a wneir o'r hyblygrwydd hwn dros y flwyddyn nesaf.

Yn ail, mewn perthynas ag **Argymhelliad 5** - ynghylch gweithio rhanbarthol integredig ac un pwynt mynediad at wasanaethau addasu. Mae drafft terfynol o'r fframwaith strategol ar gyfer Grwpiau Cynllunio Addasiadau Tai rhanbarthol i'w drafod yn y Grŵp Llywio Addasiadau Tai ar 11 Mawrth. Gofynnir i'r Grŵp gymeradwyo'r fframwaith, ac ar ôl hynny byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid. Bydd y fframwaith strategol yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr haf ar gyfer gweithredu fesul cam, gyda gweithrediad llawn o Ebrill 2022.

Bydd aelodaeth y Grwpiau Cynllunio yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, asiantaethau Gofal a Thrwsio, y Bwrdd Iechyd Lleol (gan gynnwys gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Therapydd Galwedigaethol), cyrff Trydydd Sector perthnasol a chynrychiolaeth defnyddwyr gwasanaeth. Pwrpas y Grwpiau fydd:

- sefydlu dull mwy trefnus ac integredig o ddarparu addasiadau;
- nodi blaenoriaethau strategol a rennir;
- sefydlu llwybr syml a chlir i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth gael mynediad at unrhyw gymorth neu addasiad sydd ei angen arnynt, ni waeth pwy sy'n ei ddarparu;
- sefydlu dealltwriaeth ehangach o angen y boblogaeth a'r galw am addasiadau.

Bydd perthynas uniongyrchol â Byrddau Partneriaeth Ranbarthol. Bydd telerau ac amodau grantiau addasiadau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr weithredu trwy'r Grwpiau Cynllunio Addasiadau Tai rhanbarthol.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor am eich diddordeb mewn addasiadau tai a'ch argymhellion ar gyfer newid. Mae wedi dod â ffocws newydd i'n meddylfryd polisi yn y maes hwn.

Wrth gwrs, byddwn yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth neu eglurhad pellach yn ôl yr angen.

Yn gywir

Tracey Burke

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website:
www.llyw.cymru.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.